# Gwybodaeth i Gleifion ynghylch Triniaeth Laser (Yag. - Iridotomi) Uned Llygaid

Mae'r daflen hon wedi ei pharatoi i'ch helpu chi i ddeall rhagor am eich triniaeth laser a beth y dylech ei ddisgwyl yn eich apwyntiad laser.

Mae **triniaeth laser** yn cynnig manteision pwysig oherwydd y gellir osgoi llawdriniaethau yn aml. Defnyddir laser ar gyfer nifer o wahanol gyflyrau llygaid ac yn y rhan fwyaf o lawdriniaethau nid oes anghysur na phoen. Mae'n cynnwys anelu pelydr o olau tuag yr ardal benodol yn y llygaid y mae angen ei thrin.

**Iridotomi laser Yag**

Defnyddir laser Yag i atal cynnydd cyflym yn y pwysedd y tu mewn i'r llygad, sef glawcoma difrifol. Mae achosion o hyn yn boenus iawn ac yn gallu peryglu eich golwg. Mae'r driniaeth yn para ychydig funudau ac mae'n bosibl y bydd ychydig yn anghyfforddus. Mae'r laser yn gwneud cyfres o dyllau yn yr iris, sy'n creu llwybrau newydd i hylifau y tu mewn i'r llygad fynd drwyddynt, sy'n helpu i reoli'r pwysedd.

Gwneir y driniaeth yn y clinig cleifion allanol

- Pan gyrhaeddwch y clinig caiff eich golwg ei asesu ac mae'n bosibl y rhoddir diferion yn eich llygad/aid. Diben y rhain yw helpu gyda'r driniaeth.
- Bydd y meddyg yn egluro wrthych pam rydych yn cael triniaeth laser os na ddywedwyd wrthych mewn apwyntiad cynharach. Bydd hefyd yn gofyn i chi arwyddo ffurflen gydsynio.
- Eir â chi i'r ystafell laser lle byddwch yn eistedd wrth beiriant gyda man i orffwys eich gên a'ch pen.
- Mae'n bosibl y rhydd y meddyg ddiferion yn eich llygad i dynnu'r teimlad o'r blaen cyn rhoi lens chwyddo arbennig arni. Yna rhoddir y driniaeth laser a chlywch sŵn clicio.
- Ar ôl y driniaeth laser, fe'ch cynghorir i eistedd am ryw 5-10 munud i adfer.
- Mae'n bosibl y cewch bresgripsiwn ar gyfer diferion llygaid neu dabledi am gyfnod byr, i ddiogelu'r llygad rhag unrhyw gynnydd tymor byr yn y pwysedd yn y llygad.
- Cewch apwyntiad dilynol.

**Nodiadau pwysig**

1. **Peidiwch â gyrru i'r apwyntiad hwn.** Mae'n bosibl y bydd eich golwg yn aneglur am sawl awr wedyn.

2. **Cynghorir chi i ddod ag oedolyn arall.**

3. **Mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw eich apwyntiad dilynol.**

4. **Os na allwch ddod i'ch triniaeth laser, rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd. Mae rhestr aros a gallwn ddefnyddio eich apwyntiad ar gyfer rhywun arall.**

5. Os oes gennych bryderon am eich llygad pan ydych gartref, ffoniwch:-

   Clinig Llygaid Brys :- 01633 238856

**NODIADAU PERSONOL**

________________________________________________

________________________________________________

________________________________________________

________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**